CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed MAI 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Ms. N Dafydd, J Evans, G Jones, J E Lewis, Miss. B Owen, R G Parry, W R Parry, D T Roberts, Mrs. L Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Neb.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 15ed EBRILL 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. J Evans.

SWYDDOGION 2025 / 2026.

CADEIRYDDES.
Cyng. Mrs L Roberts. (Ward Bodwrog) Cynnig Cyng. Ms. N Dafydd, eilio Cyng. R R Roberts.

IS- GADEIRYDD.
Cyng. R G Parry. (Ward Heneglwys) Cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. D T Roberts.

CYNRYCHIOLYDD / WYR. A`R FUDIADAU :- Cadeirydd neu`r Is-Gadeirydd. Neu`r Ddau. Unfrydol.
Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned. Cyng. J E Lewis.

Diolchwyd i Cyng. W R Parry am ei waith da fel Cadeirydd am 2024 / 25 gan y Cynghorwyr a`r Clerc.

Croesawyd Cyng. Mrs. L Roberts i`r gadai`r am 2025 / 26. Nid oes boneddiges wedi bod yn Gadeiryddes y Cyngor Cymdeithas erioed.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Cafnau Blodau gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) a Bronheulog Bodffordd.)
Mae angen rhywun i`w edrych ar ei holau, chwynnu ydyw`r gwaith mwyaf.
Pasiwyd i ofyn i Cai Roberts Cymmell a fuasai a diddordeb i wneud y gwaith. Cynnig Cyng. R G Parry eilio Cyng. G Jones.
Gofyn i Nigel Williams os basai Cymmell yn methu gwneud.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. FPL/2025/45. Cais llawn ar gyfer gosod pwmp gwres yn:-
   Arosfa, 4 Gorffwysfa, Bodffordd.
   Caniatad. Y Cyngor yn derbyn yr ymateb.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Galwad am safleoedd datblygu posib ar Ynys Mon. Tir allai fod yn addas ar gyfer ei ddatblygu dros yr 15mlynedd nesaf.
   Ffurflenni erbyn Mehefin 23ain 2025. Derbyn y wybodaeth.

4. Cynllunio. Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.
   Galw am safleoedd. Wefan y Cyngor (Galwad am safleoedd) neu gysylltu ar tim polisi.
   Trafodwyd gan y Cyngor a teimlwyd fe fuasai yn well i unigolion gysylltu ar Cynllunio. Hawdd gallai y Cyngor rhoi enwau ymlaen a dim diddordeb ganddynt.

5. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
   Gorchymyn Cyngor Sir. Gwahardd Traffig dros dro (Lon Trefor i`r A5) 28ain Mai 2025. Alluogi symud Coedwigaeth o amgylch llinellau pwer.
   Derbyn y wybodaeth. Y Cynghorwyr wedi cael gwybodaeth cyn y cyfarfod gan y Clerc.

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned.
   Cyfarfod Hybrid nos Lun 19eg Mai 2025 am 6 o`r gloch yn Siambr y Cyngor Llangefni a Zoom.
   Derbyn. Cyng. J E Lewis sydd yn cynrychioli y Cyngor.

7. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
   Gorchymyn y Cyngor Sir. Amryw Leoliadau Ward Canolbarth Mon. Terfyn Cyflymder 30mya.
   Gwybodaeth o`r Rhybudd Cynnig a chynlluniau ynghlyn a`r uchod.
   Mae rhybudd o newid y 20mya i 30mya o Stad Maes y Meillionn tuag at Ger y Llan, Bodffordd.
   Mae y Cyngor wedi rhoi hysbysiad y Cyngor Sir yn yr Hysbysford ger yr Ysgol Bodffordd. Mae cyfle unigolion i rhoi ei ymateb i`r rhybudd. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. W R Parry.
   Mae y Cyngor wedi gofyn o`r blaen i`r 20mya gychwyn cyn cyrraedd Capel Gad Bodffordd. Ac efallai nad oes eisiau ei newid a`i adael fel ac y mae.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng. J E Lewis yn cael golwg arno.

9. Chwarae Cymru. Cylchgrawn. Cyng. Miss B Owen yn cael golwg arno.

10. Un Llais Cymru.
    Cadwch Gymru`n daclus. Mae Grantiau Lleol ar gyfer Natur yn ol.
    Derbyn y wybodaeth ond gadael.

RHODDION.

11. Dim.

PLWYFOL.

12. Arwydd Gwyndy, Llandrygarn.
    Mae y Cyngor yn rhoi Arwydd i fynnu ger y wal, o flaen y groeslon o`r Chwarel.
    Awgrymodd y Clerc rhoi :-
    Hen Adfail Gwesty`r Goits Fawr / Old Coaching Inn.
    Trwy gynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. D T Roberts i dderbyn yr awgrymiad. Nid oedd unrhyw awgrymiad arall.

13. Cododd Cyng. G Jones fod problem gyda llygod mawr yn 25, Bronheulog, Bodffordd. Mae y Cyngor Sir yn wybodol on nid oes symudiad. Clerc i gysylltu hefyd Cyng. Sirol Ms N Dafydd yn gweithredu.

14. Gwrych Ysgol Bodffordd angen sylw. Y Clerc i gysylltu.

15. Llongyfarchiadau mawr i Cyng. J E Lewis o gael ei ddewis yn Faer Cyngor Tref, Llangefni.

16. Llongyfarchiadau mawr i Cyng. Ms N Dafydd (a Cynghorydd Sirol) o gael ei dewis fel Cadeiryddes y Cyngor Sir.

17. Maes Chwarae, Bodffordd.
Derbyniodd y Clerc e-bost gan Mrs Gaynor Jones ei bod rhoi ei rol Trysoryddes i fynu ac wedi dweud wrth y pwyllgor. Cawn wybod pan fydd Trysorydd newydd.

18. Mae giatiau y Fynwent Gymunedol Bodffordd wedi ei paentio yn ddiweddar.

19. Adroddiad y Cynghorydd Sirol. Ms N Dafydd. Derbyn gyda diolch.

MATERION ARIANNOL.

20. Cyfrif Rhedegol. £26,721.68. (Preseb 1. £5,000)

Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,910.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

21. Clerc £500.55. M Mercer (Paentio Giatiau`r Fynwent) £150.00. Awdit Cymru 22/23. £700.00

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. J Evans.

D Owen (Clerc)